

Caerdydd

Amddiffynfeydd presennol a'r tebygolrwydd o lifogydd

Mae tua 10,000 o eiddo yng Nghaerdydd yn elwa ar hyn o bryd o amddiffynfeydd llanw presennol.


Mae seilwaith pwysig a ddiogelir yn cynnwys llinellau trawsyrro trydan, y rheilffordd, adeiladau diwydiannol a'r dociau.

O amgylch y gweithfeydd dur a'r dociau ceir tir uchel gyda pheth wyneb garreg sy'n ffurfio'r amddiffynfa lanw. Cyngor Caerdydd ac Argae Bae Caerdydd yw perchnogion yr amddiffynfeydd hyn. Mae siawns o 1 mewn 200 mewn unrhyw flwyddyn i lifogydd llanw ddigwydd ar hyd y rhan hon o'r arfordir.

Mae argloddiau a pholion llen ar hyd Afon Rhymini. Mae'r amddiffynfeydd hyn yn diogelu'r rhan fwyaf o'r eiddo rhag llifogydd llanw fel bod y perygl yn 1 siawns mewn 200 mewn unrhyw flwyddyn. Mae rhai rhannau byrion angen mwy o sylw lle gall y siawns o lifogydd

llanw lleol fod yn uwch nag 1 mewn 200 mewn unrhyw flwyddyn.

Er bod rhai o'r amddiffynfeydd presennol wedi eu hadeiladu i fyny'n anffurfiol dros y blynyddoedd, bydd angen iddynt gael eu cynnal a'u gwella yn ôl y galw.



Nodyn ar godiad yn lefel y môr

Mae senario allyriadau canolog UKCP09 yn rhagweld codiad yn lefel y môr o 0.1m erbyn 2030, tua 0.3m erbyn 2060 a 0.7m erbyn 2110.

Ar hyn o bryd mae lefel y môr yn codi rhyw 2 i 2.5mm y flwyddyn. Os bydd y gyfradd hon yn parhau yna byddai codiad yn lefel y môr yn llai na'r hyn a ragamcanwyd gan y senario allyriadau canolog UKCP09.

Allwedd



Amddiffynfeydd presennol a gyfeirir atynt yn y ddogfen



Tir uchel. vn debvzol o gael ei zodi vn v dvfodol

Beth ellir ei wneud?

Ein bwriad yw gweithio gyda Chyngor Caerdydd a busnesau lleol i wella amddiffynfeydd i gadw'n wastad â newid hinsawdd i sicrhau bod y perygl llifogydd yn aros ar 1 siawns mewn 200 neu lai.

Rydym yn cynnig gwella'r darn gwanaf o'r arglwydd ger y bont reilffordd yn y 5-10 mlynedd nesaf. Daw hyn â chysondeb i'r amddiffynfeydd yn yr ardal.

Sut y penderfynwyd ar y cynigion hyn

Mae achos economaidd gref dros wella amddiffynfeydd os bydd y perygl llifogydd yn cynyddu.